

Cyngor Cymuned Llanelian (262)

Cofnodion cyfarfod nos Fawrth Chwefror 3ydd, 2015 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentre Penysarn am 7yh.

Presennol:	Dafydd Griffiths Carol Whitaker John Griffiths Cyng. Richard Jones	Hefina Williams T Elfyn Hughes Gordon Hayes Cyng. Wil Hughes	Helen Hughes Glenys Jones Cyng. Aled Morris Jones
------------	---	---	---

Ymddiheuriadau: Thomas D Jones

1 Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths a chroesawyd pawb i'r cyfarfod

2 Datgan Diddordeb

Cyng. Richard Jones a Cyng. Wil Hughes - Materion cynllunio

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod yn gywir; Cynnig Carol Whitaker, pawb yn gytûn.

4 Materion yn Codi

4.1 Cae Chwarae Lon Tyddyn Waen –

Cafwyd pris arall am see-saw newydd a chytuno y dylid gwneud ceisiadau grant tuag at y gost. Cafwyd diweddariad am y sefyllfa bresennol yn ymwneud a grantiau a chytuno bod y Cyngor yn cynnwys £2000 yn y gyllideb tuag at y prosiect os na fydd grant wedi ei sicrhau erbyn bod angen gwario'r grantiau sydd eisoes wedi eu gwobrwyo. Cynigwyd gan Glenys Jones, eiliwyd gan Gordon Hayes a phawb yn cytuno. Er gwaethaf, dim ond 1/3 o'r gost sydd ei angen gan y cyngor.

Nodwyd manylion gwahanol ffynonellau arian ar gyfer ceisiadau'r dyfodol.

CET

4.2 Golau ger y Neuadd –

Deallwyd y byddai 'r gost am olau LED yr un peth a golau oren safonol sef £180+TAW, ac yr unig wahaniaeth fyddai'r costau cynnal blynyddol. Cytuno bod angen gweithio allan costau rhedeg y gwahanol opsiynau oedd ar gael cyn gwneud penderfyniad. Nid yw pwyllgor y neuadd wedi trafod y mater hyd yma.

4.3 Ffos ger Tŷ Canol –

Mae Dafydd Griffiths wedi cyfarfod a swyddogion y Cyngor Sir ger y safle i drafod ymhellach. Mae'n debyg y byddai angen caniatâd gan Asiantaeth yr Amgylchedd cyn gallu gwneud unrhyw waith llenwi, ac fe fyddai hyn annhebygol iawn. Mae'r polion rhybuddio wedi eu gosod fel yr addewid, ac yn rhai cryfach na'r arfer. Mae'r swyddogion wedi cytuno twtio tipyn ar y ffosydd yn yr ardal er mwyn eu gwneud yn fwy diogel lle bod posib. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r swyddogion i ofyn am adroddiad ysgrifenedig yn cadarnhau'r hyn gafodd ei drafod.

CET

4.4 Cofrestrfa Tir –

Mae costau cyfreithiol yn debygol o fod yn £250 ar gyfer pob darn o dir, gyda £40 ychwanegol ar gyfer y Gofrestrfa Tir. Mae tri darn o dir i'w cofrestru sef y cae chwarae, y fynwent a Gardd Top Rallt. Cytuno ei bod yn bwysig sicrhau asedau'r Cyngor a rhoddwyd hawl i'r Clerc wneud y trefniadau priodol.

CET

4.5 Grid Cenedlaethol –

Cafwyd llythyr a newyddlen gan y Grid yn dilyn eu datganiad diweddaraf am leoliad y peilonau newydd. Deallwyd gan Cyng. Aled Morris Jones bod y Cyngor Sir mewn trafodaethau ar hyn o bryd ac nad oedd y Grid wedi gwneud unrhyw waith manwl hyd yn hyn. Bydd ymgynghoriad eto yn y dyfodol agos ac mae'n debyg, gwrthwynebiad chwyrn.

4.6 Carafanau -

Mae'r Cyngor Sir wedi cydnabod eu bod wedi derbyn y wybodaeth ac yn edrych i mewn i'r mater.

5 Cynllunio

5.1 Ceisiadau –

Nid oedd cais newydd i'w drafod ond cafwyd rhagor o wybodaeth gan y Cyngor Sir yn ymwneud a chais Plot 2 Maes y Groes. Mae'n debyg bod y deunyddiau a maint y garej wedi eu newid erbyn hyn.

5.2 Penderfyniadau -

Cafwyd wybod nad oedd angen asesiad amgylcheddol ar gais Llys Dulas.

Cafwyd wybod bod y ceisiadau canlynol wedi bod yn llwyddiannus -

- Tyddyn Mawr
- Rhosymynach Isaf
- Rhosymynach Fawr
- Bryn Fuches
- Dafarn Drip

Cafwyd wybod bod cais Pen y Gogarth am dyrbin gwynt wedi ei wrthod.

6 Materion Ariannol

6.1 Taliadau –

Fe gytunodd yr aelodau y dylid parhau ag Aelodaeth Un Llais Cymru am y flwyddyn nesaf ar gost o £164.

CET

Cymeradwywyd y taliadau canlynol –

HMRC (PAYE) £84.58

Viking Direct (Inc) £82.76

R Edwards (Llwybrau, Cae Chwarae, Mynwent) £5228.40

6.2 Cyllideb –

Nodwyd bod y ddogfen ar ffurf wahanol i'r arfer, ac esboniwyd bod dau opsiwn i'w drafod eleni. Cafwyd eglurhad gan Dafydd Griffiths o'r gwahanol benawdau, a sut oedd yr is-bwyllgor wedi cytuno ar y ffigurau sydd wedi eu cyflwyno i'r pwyllgor llawn.

Rhaid cofio bod y Cyngor wedi mabwysiadu cae chwarae newydd, a chyda prosiect yng nghae chwarae Tyddyn Waen. Mae costau ychwanegol e.e. costau cyfreithiol a chofrestrfa tir wedi eu cynnwys yn y ddogfen hefyd.

Mae'r hawl gan y Cyngor i gadw gwerth gwariant 3-12 mis wrth gefn – golyga'r opsiynau a gyflwynwyd y byddai gan y Cyngor gwerth oddeutu 6 mis o arian wrth gefn.

Nodwyd bod incwm y llithrfa wedi ei ddefnyddio yn y gorffennol er mwyn cadw'r briseb i lawr a chytuno bod angen lleihau'r ddibyniaeth arno (40% o incwm annibynnol y Cyngor ar hyn o bryd)

Nodwyd nad oedd unrhyw wariant wedi eu clustnodi ar gyfer y gofgolofn a bod angen peth gwariant arno ond bydd posib cael rhywfaint o arian tuag at y gost hynny. Gofynnwyd i Gordon Hayes gadarnhau costau yn y flwyddyn ariannol newydd.

Cytuno bod pawb yn fodlon a'r gyllideb sydd wedi ei gyflwyno a diolchwyd i'r is-bwyllgor am eu hamser i'w baratoi.

6.3 Priseb –

Ar ôl peth trafod, fe gytunwyd y dylai'r Cyngor fynd am opsiwn un sef codi briseb o £11,243.82. Byddai hyn yn golygu codiad o 24% ar y dreth. Cynigwyd gan T Elyfn Hughes, eilwyd gan Gordon Hayes, ac roedd yr holl aelodau yn gytûn.

CET

7 Polisiâu'r Cyngor

7.1 Cynigwyd gan yr Is-bwyllgor bod y Cyngor yn mabwysiadu'r dogfennau canlynol, ac roedd yr holl aelodau yn fodlon gwneud hynny -

- Rheolau sefydlog
- Polisi cwynion
- Rheoliadau ariannol

7.2 Bydd yr is-bwyllgor yn cwrdd eto i drafod polisi cydraddoldeb a pholisi iaith. Diolchwyd i'r aelodau am eu hamser i ddatblygu'r dogfennau.

8 Gohebiaeth

8.1 Cafwyd cais am gefnogaeth ariannol gan bwyllgor Eisteddfod Môn. Cytuno nad oedd gan y Cyngor arian i'w cefnogi.

8.2 Daethpwyd at sylw'r aelodau bod sesiynau gwybodaeth gan Horizon i'w cynnal yng Nghemaes ac yn Amlwch dros yr wythnosau nesaf.

8.3 Rhifyn diweddaraf Clerk and Councils Direct

8.4 Gwybodaeth am sut i enwebu ar gyfer Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd 2016

8.5 Gwybodaeth am Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn. Gofynnwyd i'r Clerc e-bostio'r rheini oedd a chyfeiriad e-bost, ac y byddai copi papur i'w ddosbarthu rhwng yr aelodau eraill. Mae'r ymgynghoriad yn cymryd lle nes ganol mi Mawrth a bydd cyfle ei drafod yn y cyfarfod nesaf. CET

8.6 Mae'r Pwyllgor Safonau yn gofyn am enwebiadau ar gyfer dau gynrychiolydd o gynghorau tref a chymuned Môn i ymuno a'r pwyllgor o fis Rhagfyr ymlaen.

8.7 Cafwyd llythyr gan Ms Myra Herbert yn nodi ei phryder ynglŷn â diogelwch a chyflwr giât y fynwent. Cytuno tynnu'r giât er iechyd a diogelwch a chysylltu â'r Eglwys i weld os oes modd ei gadw yno. CET

9 Unrhyw Fater Arall

9.1 Fe ofynnodd y Cyng. Wil Hughes petai'r Cyngor Cymuned yn gallu cysylltu â'r Cyngor Sir i godi ymwybyddiaeth o gyflwr y lon o'r A5025 tuag at Tyn Rhos Bach (Lon Dywyll). Mae cwynion ei fod yn debyg i lon fferm mewn rhai llefydd. CET

9.2 Nodwyd bod y gwaith i lwybrau'r fynwent ar ganol ei gwneud.

10 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 3/3/2015

Fe ddiolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol. Bu'r cyfarfod orffen am 8.15 o'r gloch.